



# ADRODDIAD GWRTHWYNEBU

**Cynnig i Ehangu'r Safle yn Ysgol Penyffordd  
Cynyddu'r Capasiti yn Ysgol Penyffordd o 315 i 375 o  
Ddisgyblion Llawn Amser o 1 Medi 2023 ymlaen**

## Tachwedd 2022

**Os oes angen copi caled o'r adroddiad hwn arnoch, anfonwch e-bost at [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk); gan nodi eich enw a'ch cyfeiriad post. Nodwch a hoffech gael y ddogfen yn Gymraeg neu Saesneg, neu'r ddwy iaith.**

## Cyngor Sir y Fflint - Addysg ac Ieuenctid

### Adroddiad Gwrthwynebu

#### Cynnig i Ehangu'r Safle yn Ysgol Penyffordd Cynyddu'r Capasiti yn Ysgol Penyffordd o 315 i 375 o Ddisgyblion Llawn Amser o 1 Medi 2023 ymlaen

#### 1. Pwrpas

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn unol â'r gofynion dan adran 49 Deddf Safonau a Threfniadaeth (Cymru) 2013. Mae hwn yn grynodedeb o'r gwrthwynebiadau statudol - a elwir fel arall yn "Adroddiad Gwrthwynebu".

#### 2. Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol, ar ôl cael yr holl wybodaeth a gasglwyd drwy'r Ymgynghoriad, penderfynodd y Cabinet ar 12 Gorffennaf 2022 i fwrw ymlaen â chyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol am 28 diwrnod o ddydd Iau, 29 Medi 2022 i ddydd Iau, 27 Hydref 2022.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol yn unol ag Adran 41 a 43 a 43 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ar wefan Cyngor Sir y Fflint ac fe'i rhoddwyd ar hysbysfwrdd ger prif fynedfa Ysgol Penyffordd. Cafodd pob ysgol y mae'r cynnig yn effeithio arni gopiâu electronig o'r hysbysiad a manylion ynglŷn â sut i gael copiâu caled o'r hysbysiad. Mae'r tabl isod yn nodi'r rhestr o'r rhai a dderbyniodd gopi o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Hysbysiadau Statudol, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Gofyniad o dan God Sefydliadol 011/2018	Bydd yn cael ei dosbarthu i
Gymuned yr ysgol	Y Pennaeth, athrawon, staff a chorff llywodraethu Ysgol Penyffordd  Disgyblion Ysgol Penyffordd  Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid (a lle bo'n bosibl darpar rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid) disgyblion sy'n mynychu Ysgol Penyffordd  Corff Llywodraethu Ysgol Penyffordd
awdurdod cynnal neu awdurdod cynnal arfaethedig ar gyfer unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio gan y cynigion;	Cyngor Sir y Fflint sy'n cyflwyno'r cynnig
unrhyw awdurdod lleol arall sy'n debygol o gael ei effeithio – gan gynnwys yn achos darpariaeth Angen Addysgol Arbennig (AAA)/Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) penodol, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu sy'n debygol o leoli disgyblion â datganiad ynddo;	
Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng	Esgobaeth Yr Eglwys yng Nghymru

Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol sy'n debygol o gael ei heffeithio wedi'i lleoli;	Yr Esgobaeth Gatholig
unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;	
Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion ac ysgolion eraill sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion, gan gynnwys rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion wedi'u dadleoli.	Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Ioan Fedyddiwr Corff Llywodraethu Ysgol Derwen, Higher Kinnerton
Corff Llywodraethu unrhyw ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried y bydd y cynigion yn debygol o gael effaith arnynt.	Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Castell Alun Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Elfed
Gweinidogion Cymru.	
Aelodau'r Cynulliad (AC) ac Aelodau Seneddol (AS) sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.	ASau ACau
Estyn.	Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Undebau llafur addysgu ac undebau llafur staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.	Cynrychiolwyr NASUWT; NEU; UCAC; ASCL; UNSAIN
Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol.	Ymgynghorydd GwE Ysgol Penyffordd
Y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol.	
Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion.	Comisiynydd yr Heddlu ar gyfer Gogledd Cymru
Unrhyw gyngor cymuned neu gyngor tref ar gyfer yr ardal a wasanaethir/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion	Cyngor Cymuned Penyffordd
Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol (mewn ardaloedd perthnasol).	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol a allai gael eu heffeithio;	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth meithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant lle maen nhw'n bresennol.	Mudiad Meithrin Blynyddoedd Cynnar Cymru Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd PACEY
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar	

ddarpariaeth Angen Addysgol Arbennig/Angen Dysgu Ychwanegol, unrhyw gorff iechyd neu trydydd sector perthnasol sydd â diddordeb.	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol.	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd honno.	
Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.	
Arall	Holl Gynghorwyr Cyngor Sir y Fflint Cymuned ehangach Penyffordd a oedd wedi cytuno i dderbyn gwybodaeth Swyddogion perthnasol Cyngor Sir y Fflint

### 3. Gwrthwynebiadau

Yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, **cafwyd 1 gwrthwynebiad** gan Gyngor Sir y Fflint mewn perthynas ag ehangu'r safle yn Ysgol Penyffordd gan gynyddu'r capasiti yn Ysgol Penyffordd o 315 i 375 o ddisgyblion llawn amser o 1 Medi 2023 ymlaen.

Cafwyd yr ohebiaeth ar ffurf e-bost gan aelod o gymuned leol Penyffordd a gellir ei gweld yn llawn yn Atodiad 1.

Mae'r gwrthwynebiad wedi'i gategoreiddio yn ôl beth y *dylai* cyrff perthnasol ei ystyried wrth arfer eu swyddogaethau o baratoi a chyhoeddi cynigion trefniadaeth ysgolion, neu wrth eu cymeradwyo/penderfynu arnynt.

<b>1. Adnoddau Addysg a Goblygiadau Ariannol Eraill</b>	<b>Ymateb CSFf</b>
---------------------------------------------------------	--------------------

<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Diffyg rhagwelediad mewn perthynas â'r adeilad gwreiddiol</b></li> </ul>	<p>Dyluniwyd yr adeilad ysgol newydd i gymryd i ystyriaeth y posibilrwydd o ehangu yn y dyfodol er mwyn cynyddu'r capasiti ymhellach ar gyfer 375 o ddisgyblion llawn amser. Mae caniatâd cynllunio eisoes wedi'i roi ar gyfer hyn. Ers 2019 mae'r cynnydd mewn galw am le ac argaeledd buddsoddiad cyfalaf o dan Adran 106 - cyfraniadau cynllunio, wedi creu cyfle i wneud rhagor o fuddsoddiad mewn ehangu'r ysgol. Ar adeg codi'r adeilad ysgol newydd nid oedd arian ar gael ar gyfer y dosbarthiadau ychwanegol ac nid oedd y niferoedd yn ddigonol i gyfiawnhau y capasiti ychwanegol.</p>
<b>2. Effaith Gymunedol</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y cynnydd o ran capasiti yn arwain at ddatblygiadau tai newydd ym Mhenyffordd</li> <li>• Diffyg buddsoddiad mewn gwasanaethau ac amwynderau lleol hanfodol eraill.</li> </ul>	<p>Bydd cyflymder adeiladu datblygiadau tai yn cael ei reoli gan gynlluniau perchnogion y safle / datblygwyr, y farchnad dai, yr hinsawdd economaidd bresennol a ffactorau eraill sy'n anrhagweladwy.</p> <p>Gellir ond defnyddio'r arian adran 106 o gyfraniadau cynllunio at ddibenion Addysg o fewn ysgol sydd eisoes wedi gweld cynnydd mewn niferoedd o ddatblygiad yn yr ardal.</p>

Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013), mae'r Adroddiad Gwrthwynebu hwn ar gael i fudd-ddeiliaid trwy ddolen ar e-bost ac mae hefyd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir y Fflint yn:

[www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion](http://www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion)

I wneud cais am gopi caled (papur) o'r ddogfen hon, anfonwch e-bost at [21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk), neu ysgrifennwch at y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND, neu cysylltwch â'r tîm ar 01352 704015 neu 704134.

#### 4. Hysbysiad o'r Penderfyniad

Fel yr amlinellwyd yn ystod y broses ymgynghori, mae angen cymeradwyaeth Aelodau Cabinet yr Awdurdod Lleol ar gyfer y cynnig i ehangu'r safle yn Ysgol Penyffordd gan gynyddu'r capasiti yn Ysgol Penyffordd o 315 i 375 o ddisgyblion llawn amser o 1 Medi 2023 ymlaen.

Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebu hwn, ochr yn ochr â chopi o'r holl wrthwynebiadau, copi o'r ddogfen ymgynghori; copi o'r adroddiad ymgynghori, a chopi o'r hysbysiad a gyhoeddwyd yn cael eu hanfon ymlaen at Aelodau Cabinet ar gyfer penderfyniad.

## **Atodiad 1**

**Gwrthwynebiad i'r cynnig i ehangu'r safle yn Ysgol Penyffordd i gynyddu'r capasiti yn Ysgol Penyffordd o 315 i 375 o ddisgyblion llawn amser o 1 Medi 2023.**

**From:** [REDACTED]  
**Sent:** 02 October 2022 19:52  
**To:** 21stCenturySchools  
**Subject:** Statutory Notice Ysgol Penyffordd

Dear Sirs,

Further to the Statutory Notice Ysgol Penyffordd, I wish to register my objection to the expansion of the school.

I object to the increase on the following basis:

- Lack of foresight on the original build
- The increase in capacity leading the way to further housing development in Penyffordd
- Lack of investment in other vital local services and amenities

[REDACTED]

Regards

[REDACTED]

Sent from [Mail](#) for Windows

mhtml:file://L:\FCC\_Fileshare\_01\SchoolsModernisationTeam\Schools\Primary\Peny... 25/10/2022